Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro
Tasgau Cyfoethog

Ardal: Yr ardal leol/y parc **Amcan Dysgu**: Cynllunio taith i'r parc a chyfrifo faint o amser y mae'r daith yn ei gymryd	**Grŵp Blwyddyn y CC:** Blynyddoedd 3 a 4

Pwnc/pynciau: Mathemateg/Rhifedd/Daearyddiaeth

<u>Rhaglen Astudio Mathemateg</u>

<u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u>

Adnabod prosesau a chysylltiadau

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
- Adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- Dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
- Dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- Dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell
- Amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir

Cynrychioli a chyfathrebu

- Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- Mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynny
- Defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol
- Dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas.

Adolygu

- Dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol
- Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol
- Defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.

<u>Defnyddio sgiliau rhif</u>

Ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhif

- Defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluosi 2, 3, 4, 5, 6 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu (B4)

Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb

- Defnyddio haneri a chwarteri (B3)
- Canfod symiau ffracsiynol drwy ddefnyddio ffeithiau hysbys am dablau, *e.e. 1/6 o 30cm (B4)*
- Adnabod mai amryw o rannau sy'n creu rhif cyfan yw ffracsiynau, *e.e. 2/3, 3/10 (B4)*

<u>Defnyddio sgiliau mesur</u>

Amser

- Dweud faint o'r gloch yw hi i'r funud agosaf ar glociau analog (B4)
- Darllen oriau a munudau ar gloc digidol 24 awr (B4)
- Amseru a rhoi digwyddiadau yn eu trefn mewn eiliadau (B4)

- Defnyddio calendrau i gynllunio digwyddiadau (B4).

<u>Defnyddio sgiliau data</u>
Casglu a chofnodi data
Cyflwyno a dadansoddi data
- Cyflwyno data drwy ddefnyddio: (B4)
  - rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau
  - siartiau bar a graffiau bar llinell wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10.

Pennawd/Addas i blant
Beth am fynd ar daith i'r parc

Meini Prawf Llwyddiant
- Amcangyfrif y pellter i'r parc lleol a'r amser mae'n ei gymryd
- Marcio'r llwybr mwyaf diogel ar fap
- Cofnodi'r amser cywir mae'n ei gymryd i gyrraedd y parc
- Gwneud rhestr o'r offer yn y parc
- Creu amserlen ar gyfer yr athro dosbarth
- Defnyddio sgiliau mathemategol i greu cynllun cylchdro ar gyfer gweithgareddau yn y parc
- Creu rhestr siopa.

Beth i'w wneud:
Ymestyn yn yr ystafell ddosbarth (gwaith ymlaen llaw)
Esboniwch y byddant yn cynllunio taith i'r parc ar gyfer dosbarth iau a bod yr athro dosbarth eisiau gwybod faint o amser fydd gan y plant i chwarae yno.
Rhowch y cyd-destun, sef y byddant yn gadael ar amser penodol (e.e. ar ôl amser chwarae) a bydd angen iddynt fod yn ôl mewn pryd i ginio.
Dylai'r plant amcangyfrif y pellter a'r amser y mae'n ei gymryd i gerdded i'r parc, a thrafod beth fydd angen iddynt ei wneud (creu meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg).
Dylid defnyddio mapiau a graddfa i gyfrifo pellter a chynllunio'r llwybr mwyaf diogel (gan osgoi unrhyw beryglon posibl, os oes modd) a Google Earth i gadarnhau. Dylai'r dosbarth benderfynu ar y llwybr i'w ddilyn.
Gweithgaredd yn yr awyr agored
Bydd y plant yn mynd ar y daith i'r parc, gan amseru'u hunain yn cerdded yno (gan gofio y bydd y plant yn cerdded yn arafach, gan eu bod yn ifancach). Dylid dilyn y llwybrau sydd wedi'u cynllunio ar y map.
Yn y parc, rhaid cyfrif yr offer, e.e. siglenni, si-so, sleid, ac ati. Os bydd pobl plentyn yn cael 5 munud ar y siglen, faint o amser byddai'n ei gymryd i'r dosbarth cyfan gael tro? A fydd digon o amser?
Ymestyn yn yr ystafell ddosbarth (gwaith dilynol)
Yn ôl yn y dosbarth, bydd y plant yn creu amserlen i'r athro dosbarth, ar gyfer y daith, yn cynnwys cylchdro o weithgareddau ar gyfer y plant i sicrhau bod pob un ohonynt yn cael tro ar o leiaf 3 eitem yn y parc.
Ymestyn
Gallai'r plant gyfrifo symiau ar gyfer picnic i'r dosbarth fynd ag ef i'r parc.
Mae Mrs Simpson yn bwyta 2 frechdan, 4 tomato bach, 12 o greision a 2 fanana. Mae pob un o'r plant yn bwyta hanner hyn. Cyfrifwch y rhestr siopa y bydd ei hangen ar Mrs Simpson wrth fynd i'r siop er mwyn bwydo'r dosbarth.

Adnoddau ar gyfer yr awyr agored:
Offer yn y parc, iPad, Mapiau, Clipfwrdd a phapur, Stopwatsis

Adnoddau yn y dosbarth: Mapiau lleol, Google Earth (gliniaduron a chyfrifiaduron)
Cysylltiadau cwricwlaidd: Daearyddiaeth, Llythrennedd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Ysgolion Iach